# Ffurflen ymateb rheolwyr

Archwilio Cymru
Audit Wales

| At ddefnydd Archwilio Cymru yn unig | |
|---|---|
| Corff a archwilir | |
| Enw'r archwiliad | Cynllunio Cyfalaf |
| Dyddiad cyhoeddi | 29 Ionawr 2026 |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| **A1** | Dylai cynghorau adolygu eu trefniadau cynllunio cyfalaf gan ystyried y materion a nodir yn ein hadroddiad, er mwyn nodi a gweithredu cyfleoedd i wella. Rydym wedi datblygu rhestr wirio (**Atodiad 4**) y gallai cynghorau ei hystyried yn ddefnyddiol i gefnogi hyn.<br>Yn rhan o hyn, rydym yn argymell bod cynghorau yn canolbwyntio'n benodol ar: | Nid oes gan Adran Gyllid Cyngor Gwynedd unrhyw wrthwynebiad i arwain ar y gwaith o adolygu trefniadau cynllunio cyfalaf o fewn yr awdurdod.  Rydym yn hyderus fod trefniadau cadarn o fewn y Cyngor i asesu ein anghenion cyfalaf ac i fonitro'r cynlluniau hyn.<br>Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r cyfle hwn i gymharu ein gweithdrefnau gyda'r ymarferion a argymhellir yn adroddiad, ond gofynnwn i Archwilio Cymru fod yn | 31 Rhagfyr 2026 | Pennaeth Cyllid | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) | Archwilio Cymru yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| | • sicrhau bod cynlluniau cyfalaf a datganiadau ariannol yn cael eu llywio gan wybodaeth diweddar, cywir a chynhwysfawr am gyflwr eu hasedau (paragraffau 52 i 57)<br>• gwerthuso eu prosiectau cyfalaf yn rheolaidd er mwyn asesu a ydynt wedi cyflawni eu canlyniadau arfaethedig (paragraffau 87 i 89)<br>• sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i gynghorwyr i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ar gynlluniau a phrosiectau cyfalaf a darparu goruchwyliaeth a chraffu arnynt yn effeithiol (paragraffau 89 i 91). | gydymdeimladwy a bod yn realistig gyda'r hyn gellir ei gyflawni gydag adnoddau cyfyngedig.<br>Os am gyflawni adolygiad ystyrlon a chynhwysfawr gofynnwn am amserlen cyflawni hyd at 31 Rhagfyr 2026 o ystyried yr holl bwysau arall sydd ar y gwasanaethau perthnasol. | | | |